CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2007 Rhif 1042 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2003 (O.S. 2003/154 (Cy.24)) ("y prif Reoliadau").

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn-

(a) yn diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau drwy ddileu'r cyfeiriad at "Awdurdod Iechyd" yn y diffiniad o "corff GIG" (rheoliad 2(2));

(b) yn diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau drwy ddileu'r angen i gyrff cyfrifol ymgynghori cyn llunio eu strategaethau (rheoliad 2(3));

(c) yn ehangu rheoliad 5(2)(dd)(v) o'r prif Reoliadau i gynnwys yr angen i'r strategaeth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n ymwneud ag anabledd, hil, rhyw, iaith, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred (rheoliad 2(4));

(ch) yn diwygio rheoliad 6 o'r prif Reoliadau i ddileu'r gofynion a fyddai'n cael eu gosod ar gyrff cyfrifol pe baent yn bwriadu peidio ag ymrwymo i drefniadau comisiynu (rheoliad 2(5));

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 1042 (W.102)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## Health, Social Care and Well-being Strategies (Wales) (Amendment) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations amend the Health, Social Care and Well-being Strategies (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/154 (W.24)) ("the principal Regulations").

**2**. These Regulations-

(a) amend regulation 2(i) of the principal Regulations by removing Health Authority from the definition of "NHS Body" (regulation 2(2));

(b) amend regulation 4 of the principal Regulations to remove the need for responsible bodies to consult before formulating their strategies (regulation 2(3));

(c) extend regulation 5(2)(f)(v) of the principal Regulations to include the need for the strategy to address inequalities relating to disability, race, gender, language, age, sexual orientation, religion and belief (regulation 2(4));

(d) amend regulation 6 of the principal Regulations to remove requirements placed on responsible bodies in the event of them proposing not to enter into commissioning arrangements (regulation 2(5));

(d) yn diwygio rheoliad 7 o'r prif Reoliadau i gynnwys yn rheoliad 7(1) gynlluniau a wneir o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004; rhoi yn lle'r cyfeiriad yn rheoliad 7(1)(c) at adran 28 o Ddeddf Iechyd 1999 gyfeiriad at adran 17 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a dileu'r gofyniad yn rheoliadau 7(2), 7(4) a 7(5) i gyhoeddi cynlluniau a restrir yn rheoliad 7(1) fel rhan o'r strategaeth (rheoliad 2(6));

(dd) yn diwygio rheoliad 10 o'r prif Reoliadau i leihau'r cyfnod gweithredol ar gyfer pob strategaeth i 3 blynedd (rheoliad 2(7)).

**3**. Mae Arfarniad Rheoliadol am yr effaith a gaiff y Rheoliadau hyn ar gostau busnes wedi'i baratoi a'i osod yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau ohono oddi wrth yr Uned Strategaeth, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(e) amend regulation 7 of the principal Regulations to include in regulation 7(1) plans made under section 26 of the Children Act 2004; replace the reference in regulation 7(1)(c) to section 28 of the Health Act 1999 with section 17 of the National Health Service (Wales) Act 2006 and to remove the requirement in regulations 7(2), 7(4) and 7(5) to publish plans listed in regulation 7(1) as part of the strategy (regulation 2(6));

(f) amend regulation 10 of the principal Regulations to reduce the operative period for each strategy to 3 years (regulation 2(7)).

**3**. A Regulatory Appraisal on the effect these Regulations will have on the costs of business have been prepared and placed in the Library of the National Assembly for Wales. Copies may be obtained from the Strategy Unit, the Department of Health and Social Services, the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 1042 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *27 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 40(4), (5), (6) a (9) ac adran 203(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol-

**Enwi, dehongli a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2007.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2003(**2**).

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**2**.-(1) Mae'r prif Reoliadau yn cael eu diwygio'n unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(b), hepgorer y geiriau "Awdurdod Iechyd" lle maent yn ymddangos y tro cyntaf.

(3) Yn rheoliad 4(3), hepgorer yr holl eiriau hyd at ddiwedd y paragraff hwnnw ar ôl y geiriau "rhaid i'r cyrff cyfrifol gydweithredu â'r personau neu'r cyrff a restrir yn rheoliad 3(1)".

(**1**) 2006 p.42. Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf at y term "Welsh Ministers" i gael eu heffaith tan ddiwedd y cyfnod cychwynnol, o fewn ystyr y term hwnnw yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), yn rhinwedd adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p.43) a pharagraff 10 o Atodlen 3 iddi.

(**2**) O.S. 2003/154 (Cy.24).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 1042 (W.102)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## Health, Social Care and Well-being Strategies (Wales) (Amendment) Regulations 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 March 2007* |
| *Coming into force* | *1 April2007* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 40(4), (5), (6) and (9) and section 203(2) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), makes the following Regulations-

**Title, interpretation and commencement**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Health, Social Care and Well-being Strategies (Wales) (Amendment) Regulations 2007.

(2) These regulations come into force on 1 April 2007.

(3) In these Regulations "the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the Health, Social Care and Well-being Strategies (Wales) Regulations 2003(**2**).

**Amendment of the principal regulations**

**2**.-(1) The principal Regulations are amended in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) In regulation 2(i), omit the words "Health Authority" where they first occur.

(3) In regulation 4(3), omit all the words to the end of that paragraph after the words "the responsible bodies shall co-operate with the persons or bodies listed in regulation 3(1)".

(**1**) 2006 c.42. References in the Act to "Welsh Ministers" are to have effect until the end of the initial period, within the meaning of the Government of Wales Act 2006 (c.32), as references to the National Assembly for Wales, constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38), by virtue of section 5 of and paragraph 10 of Schedule 3 to the National Health Service (Consequential Provisions) Act 2006 (c.43).

(**2**) S.I. 2003/154 (W.24).

(4) Yn rheoliad 5(2)(dd)(v), ar ôl y gair "llesiant" mewnosoder y geiriau "gan gynnwys anghydraddoldebau sy'n ymwneud â hil, anabledd, rhyw, iaith, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd a chred".

(5) Yn rheoliad 6, hepgorer paragraffau (2) a (3).

(6) Mae rheoliad 7 yn cael ei ddiwygio'n unol â'r darpariaethau canlynol:

(a) ar ôl paragraff (1)(a), mewnosoder yr is-baragraff canlynol "(aa) cynlluniau plant a pobl ifanc o dan adran 26(1) o Ddeddf Plant 2004";

(b) ym mharagraff (1)(c), yn lle'r geiriau "adran 28 o Ddeddf Iechyd 1999" rhodder "adran 17 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006";

(c) ym mharagraff (2), hepgorer yr holl eiriau hyd at ddiwedd y paragraff hwnnw ar ôl y geiriau "cynlluniau a restrir ym mharagraff (1) uchod";

(ch) ym mharagraff (4), hepgorer yr holl eiriau hyd at ddiwedd y paragraff ar ôl y geiriau "fel rhan o'u dyletswydd i baratoi strategaeth";

(d) ym mharagraff (5), hepgorer yr holl eiriau hyd at ddiwedd y paragraff ar ôl y geiriau "fel rhan o'u dyletswydd i baratoi strategaeth".

(7) Yn rheoliad 10(4), rhodder y ffigur "3" yn lle'r ffigur "5".

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

27 Mawrth 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.

(4) In Regulation 5(2)(f)(v), after the words "well-being," insert the words "including inequalities which relate to race, disability, gender, language, age, sexual orientation and religion and belief".

(5) In regulation 6, omit paragraphs (2) and (3).

(6) Regulation 7 is amended in accordance with the following provisions:

(a) after paragraph (1)(a), insert the following subparagraph "(aa) children and young people's plans under section 26(1) of the Children Act 2004";

(b) in paragraph (1)(c), replace the words "section 28 of the Health Act 1999" with "section 17 of the National Health Service (Wales) Act 2006;

(c) in paragraph (2), omit all the words to the end of that paragraph after the words "the plans listed in (1) above" ;

(d) in paragraph (4), omit all the words to the end of the paragraph after the words "as part of their duty to prepare a strategy";

(e) in paragraph (5), omit all the words to the end of the paragraph after the words "as part of their duty to prepare a strategy".

(7) In regulation 10(4), substitute the figure "3" for the figure "5".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

27 March 2007

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2007 Rhif 1042 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 1042 (W.102)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

Health, Social Care and Well-being Strategies (Wales) (Amendment) Regulations 2007

© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W0073/04/07 ON